# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD LLUN, 7 MEHEFIN 2021

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Steve Collings, Annwen Hughes, Elin W Jones, Gareth Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Owen, Roy Owen, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

**Swyddogion:**

Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN GADEIRYDD AR GYFER 2021/22**

Diolchwyd i'r Cynghorydd Elfed Williams am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor dros y ddwy flynedd diwethaf a hefyd am ei gefnogaeth i'r Is-bwyllgorau Trwyddedu.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD EDGAR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2021/22**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorydd Jason W Parry

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

- Cymerwyd y cyfle i ddiolch yn swyddogol am y gwaith da mae'r swyddogion Profi, Olrhain a Diogelu yn ei wneud
- Tynnwyd sylw at sedd Aelod Unigol sydd wedi bod yn wag ers tro bellach ar restr Aelodaeth y Pwyllgor. Awgrymwyd i'r mater gael ei gyfeirio at y Grŵp Busnes

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mawrth 15fed 2021 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS BWYLLGORAU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 23 Chwefror a 27 Ebrill 2021

**8. CYMERADWYAETH I GYCHWYN YMGYNGHORIAD STATUDOL AR DDATGANAID O BOLISI DRAFT - DEDDF DRWYDDEDU 2003**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlygu'r angen i ddechrau ymgynghoriad statudol ar ddatganiad o bolisi drafft Deddf Trwyddedu 2003. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol i bob Awdurdod Trwyddedu adolygu ei bolisi bob pum mlynedd a'i newid fel yr angen. Ategwyd bod polisi presennol Awdurdod Trwyddedu Cyngor Gwynedd wedi ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn Rhagfyr 2015.

Cyfeiriwyd at y polisi drafft newydd gan dynnu sylw at y man newidiadau sydd i'r polisi presennol. Cyfeiriwyd hefyd at rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn y broses o lunio polisi ac ymateb i geisiadau am drwydded eiddo.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â derbyn cofnodion o gyfarfodydd swyddogion ar draws y Gogledd, nodwyd gan fod y cyfarfodydd yn cymryd lle yn wythnosol a 90% o'r drafodaeth yn ymwneud â rheoliadau covid 19, nad oedd cofnodion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd hyn ar gael.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo cychwyn yr ymgynghoriad statudol ar y Datganiad o Bolisi Trwyddedu drafft.**

2. **Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd unrhyw bryderon a godir am y polisi drafft newydd yn cael eu hystyried a bydd newidiadau yn cael eu gwneud i'r polisi yn ôl yr angen.**

3. **Ar ôl cymeradwyaeth gan y pwyllgor hwn yn dilyn yr ymgynghoriad, fe fydd y polisi newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn iw ystyried; er penderfyniad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.25 y.b.

**CADEIRYDD**